DEWI JONES (Dyffryn Nantlle) yn gweld

# Llwybrau'r mynydd - a'i enw da ei hun - yn llyfr bach yr hen dywysydd Cymreig

WRTH DDARLLEN am anturiaethau mynyddwyr yn yr Himalaya byddaf yn meddwl yn aml am y rhan bwysig a chwaraeodd y Sherpa yn yr ymgyrchoedd hyn. Cyflogwyd hwy gan y mynyddwyr Ewropeaidd fel tywysyddion a daeth amryw ohonynt yn fyd-enwog yn sgîl y cyhoeddusrwydd a ddilynai'r ymgyrchoedd ar y mynyddoedd uchaf.

Yr oedd gan y Sherpa lyfr poced yn cynnwys tysteb o'i gymwysterau. Ar ddiwedd pob ymgyrch ysgrifennai'r arweinydd ynddo ychydig sylwadau ar berfformiad y tywysydd ynghyd â manylion o'r daith a'r uchder a gyrhaeddodd. Gallai'r tywysydd wedyn hysbysebu ei hun drwy gyfrwng ei lyfr poced, gan ei ddangos i arweinydd yr ymgyrch nesaf.

Cefais fwynhad mawr yn ddiweddar o ddarganfod tystiolaeth fod yr un arferiad yn cael ei weithredu gan dywysyddion Eryri bron gant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Mae llyfr poced Thomas Jones, un o dywysyddion Beddgelert, erbyn heddiw ar gadw yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor.

Brodor o blwyf Penmorfa ydoedd Thomas Jones, ac mae'n bur debyg iddo symud i fyw i Stryd yr Eglwys, Beddgelert, wedi iddo briodi. Dengys cyfrifiad 1861 ei fod erbyn hynny yn ŵr gweddw gydag un ferch.

Defnyddiodd lyfr cownt yn mesur chwe modfedd a hanner wrth bedair modfedd at y gwaith, ac mae'n cwmpasu'r blynyddoedd o 1845 hyd at 1849. Ceir ynddo enwau'r teithwyr, dyddiad y daith gydag ychydig fanylion ar ba lwybr a gymerwyd, crynodeb o'r tywydd a'r golygfeydd gan ddiweddu gyda gair o ganmoliaeth i'r 'guide'.

* * * *

ARFERAI Tom Jones dywys ar hyd llwybr Beddgelert i ben Yr Wyddfa. I ddechrau, canlynai ffordd Caernarfon nes cyrraedd mynedfa i fferm Ffridd Uchaf, yna dilyn y llwybr heibio'r ffermdy ymlaen dros Llechog ac i fyny at y Clawdd Coch, dros y Bwlch Main ac ymlaen ar hyd y gefnen i gopa'r mynydd.

Yr oedd y daith i lawr yn amrywio yn ôl gofynion yr ymwelwyr. Weithiau byddent yn dychwelyd yr un ffordd, ond dro arall byddai'n ofynnol tywys ymlaen i lawr i Lanberis.

I amrywio'r daith hefyd dilynid y llwybr i lawr at Lyn Glaslyn ac ymlaen i Gorffwysfa (Pen y Pass heddiw) gan ddod yn ôl drwy Nantgwynant.

Cerddai rhai gyda'r 'guide' ond llogai eraill ferlod i'w cario i fyny. Coeliwch neu beidio byddai rhai yn marchogaeth bob cam i'r copa, ond deuai'r mwyafrif i lawr o'r cyfrwy cyn cyrraedd Bwlch Main a cherdded gweddill o'r ffordd.

Anfarwolwyd 'Gelart', un o ferlod Thomas Jones gan deithiwr o'r enw Francis Henry Gabriel wedi iddo farchogaeth i ben yr Wyddfa arno ar y 30ain Awst 1848.

Yr oedd yr arferiad o ddringo'r Wyddfa i weld toriad gwawr yn ystod 'naw nos ola' yn ei anterth y pryd hynny, a mawr fyddai'r hwyl wrth aros yn y cytiau ar y copa tra byddai'r tywysyddion yn creu adloniant drwy ganu i'w difyrru.

* * * *

YR OEDD y gost o logi tywysydd yn amrywio o bentref i bentref. Os am fynd i ben yr Wyddfa o Feddgelert y pris oedd saith swllt. Os oedd angen canlyn ymlaen i Lanberis neu Gapel Curig codid deg swllt. Codid deg swllt hefyd o Feddgelert i ben Yr Wyddfa yn y nos.

O Ben y Gwryd — pum swllt; o'r *Snowdon Ranger* — saith swllt; o Gapel Curig — deg swllt, ac o Lanberis — saith swllt. 'Roedd cost ychwanegol o bum swllt os am gael merlyn i'w farchogaeth a'r un oedd y gost hon o bob pentref.

Mae'n amlwg fod rhai o bendefigion Lloegr yn ymwelwyr cyson ag Eryri, fel y gwelwn oddi wrth y cofnod hwn a wnaed ar y 30ain o Orffennaf, 1846:

> **'Lord Lewisham has known Thomas Jones for some time and has great pleasure in recommending him as an excellent guide in every respect. He is always cheerful and extremely civil besides knowing the neighbourhood thoroughly.'**

Mae rhai yn cofnodi'r amser a gymerwyd i gyrraedd y copa. Dywed John Kirkes ar y 15fed o Dachwedd 1846 iddo gyrraedd pen yr Wyddfa mewn awr a thri deg pump o funudau a dychwelyd mewn awr ac wyth munud. Amser eithriadol o gyflym os yn gywir.

Gofynnais i Hefin Griffiths o Feddgelert, un o redwyr mynydd gorau Cymru, faint a fyddai ef yn gymryd drwy ddilyn yr un cwrs, a'i ateb oedd awr ac ugain munud i fyny a phum deg munud i lawr.

Mae cofnod Kirkes yn diweddu fel hyn: **'Thomas Jones was most attentive although he was behind time'.** Cychwynwyd ar y daith hon yn y prynhawn, a chan mai mis Tachwedd ydoedd rhaid oedd brysio rhag ofn i'r nos eu dal.

* * * *

YR OEDD tymor yr ymwelwyr yn ymestyn o Fawrth hyd at Dachwedd, ac mae'n amlwg nad oedd eira hyd yn oed yn eu rhwystro rhag dilyn y 'guides' i ben yr Wyddfa. Ym Mawrth 1848 aeth J. P. Easton o Lundain i'r copa gyda Thomas Jones er bod rhannau uchaf y mynydd dan drwch o dair troedfedd o eira.

Yn y cofnod nesaf cawn fod gŵr a gwraig, eto o Lundain, wedi cyrraedd y copa drwy gawodydd trwm o eira, ac i ddyfynnu: **'. . . but by perserverance and the great care and attention of Thomas Jones their Guide (of whom they cannot speak too highly) they arrived at the summit after wading through from five to six feet of snow, in depth the greatest ever known by the Guide'.**

Mae'n syndod a chofio yr offer oedd ganddynt ar y pryd, nad oedd mwy o ddamweiniau yn digwydd. Gwisgai'r dynion hetiau caled uchel a chôt din-fain, a'r merched hwythau yn eu gwisgoedd llaes helaeth. Gwisgai'r tywysyddion ddillad gwaith arferol yr oes, er bod ambell un ohonynt yn dra darluniadol ei ymddangosiad.

* * * *

AR DUDALEN olaf y llyfr poced mae nodiadau wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg yn ymwneud â threfn a rheolau Cwest, a bûm yn ystyried arwyddocâd hyn o wahanol agweddau. Daeth i'm cof y digwyddiad rhyfedd hwnnw yn 1846 pan ddiflannodd Y Parch. Henry Wellington Starr o Northampton wrth iddo geisio dringo'r Wyddfa ar ddiwrnod niwlog. Dyma'r hanes.

Cychwynnodd Starr ar brynhawn dydd Mawrth y 15fed o Fedi 1846 o Gaernarfon gyda'r bwriad o ddringo'r Wyddfa o dafarn y *'Snowdon Guide'* (Hostel y Snowdon Ranger heddiw), ger Llyn Cwellyn. Rhwng pedwar a phump o'r gloch y prynhawn hwnnw gofynnodd am gyfarwyddyd gan Robert Owen y 'guide', ond cynghorwyd ef gan hwnnw i beidio â mentro i fyny oherwydd y niwl trwchus a orchuddiai'r mynyddoedd ar y pryd.

Fodd bynnag, mynd a wnaeth, ac yn hwyrach gwelwyd ef gerllaw Llyn Ffynnon y Gwas gan ddau o weision un o'r ffermydd cyfagos. Mae'n bosib mai dyna'r tro olaf i Starr gael ei weld yn fyw.

Ymhen pythefnos daeth ei fam a'i chwaer i holi yn ei gylch, gan nad oeddynt wedi cael ateb i'r llythyrau a anfonasant ato. Agorwyd ymchwiliad ac o ganlyniad bu dros naw cant o weithwyr Chwarel Dinorwig, ynghyd â nifer o ffermwyr, bugeiliaid, helwyr a thywysyddion lleol yn chwilio llechweddau'r Wyddfa a'r Glyder amdano am rai dyddiau.

Dosbarthwyd posteri yn rhoi disgrifiad ohono, a chynigiwyd gwobr o £50 i'r sawl a ddeuai o hyd iddo. Yn fuan wedi hyn daeth yr eira i orchuddio mynyddoedd Eryri a gohiriwyd y chwilio am y tro.

Cynhyddwyd y dirgelwch gan sibrydion fod Starr wedi ei weld ar gopa'r Glyder Fawr, a hefyd yn Iwerddon o bob man.

* * * *

YN NECHRAU Mehefin y flwyddyn ganlynol 'roedd William Hughes yn hela ar gyrion Moel Cynghorion pan welodd siôl goch ymysg y cerrig. Wrth edrych ymhellach cododd damaid o liain. Daeth diflaniad Starr yn syth i'w feddwl.

Dychwelodd drannoeth gyda dau arall, ac wrth chwilio'n uwch ar y llethr daethpwyd o hyd i weddillion Starr yng ngwaelod cwter ar Glogwyn Llechwedd Llo, Moel Cynghorion.

Y digwyddiad hwn yn sicr a gymhellodd Thomas Jones i nodi rheolau Cwest yn ei lyfr poced, ond ni alwyd arno i roi tystiolaeth. Holwyd llawer ar y tywysyddion yn ystod yr ymchwiliad a galwyd ar un ohonynt, sef William Williams, i roi tystiolaeth, ond stori arall yw honno. Dyfarniad y Cwest oedd i Henry Wellington Starr gyfarfod â'i ddiwedd drwy ddamwain.

Mae'n amlwg fod blynyddoedd o anadlu awyr iach y mynydd wedi dygymod â Thomas Jones, fel y gwelir o ddarllen carreg ei fedd ym Mynwent Eglwys Beddgelert.

*BEDD*
*JANE*
*Gwraig Thomas Jones Guide*
*Beddgelert*
*Fu farw Tach 28 1857*
*yn 79 ml oed*

*Hefyd*
*THOMAS JONES*
*ei phriod a fu farw*
*Mai 22 1877*
*Yn 89 oed.*